# FAQ

## Cwestiynau cyffredin i rieni yn yr ardaloedd peilot

**Beth yw'r cynnig gofal plant?** Bydd y cynnig gofal plant newydd yn darparu cyfanswm cyfunol o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant am gyfnod o hyd at 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer plant 3 a 4 oed i rieni cymwys sy'n gweithio. Rydym yn rhedeg cynllun peilot ar y cynnig hwn mewn rhai ardaloedd ar hyn o bryd.

**Beth y mae'n ei olygu i mi fel rhiant?** Os oes gennych chi blentyn sy'n 3 neu'n 4 oed, mae hawl gennych i gael o leiaf deng awr yr wythnos o addysg gynnar (sy cael ei adnabod hefyd fel Meithrin Cyfnod Sylfaen)
ysgol. Os ydych chi'n gweithio, , gallech chi gael oriau ychwanegol o ofal plant wedi hariannu gan y Llywodraeth hefyd, fel eich bod yn cael cyfanswm o 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar yr wythnos am gyfnod o hyd at 48 wythnos y flwyddyn..
ddarpariaeth gyfunol o addysg a gofal plant yn ystod tymhorau ysgol a 9 wythnos o ddarpariaeth lan i dymhorau ysgol. Bryd hynny, hawl i gael hyd at 30 awr o ofal plant sydd gennych.

**Beth yw addysg gynnar?** Mae hawl gan bob plentyn i gael **addysg gynnar** (Meithrin Cyfnod Sylfaen) o'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 3 oed. Mae pob awdurdod lleol yn darparu isafswm o 10 awr o addysg gynnar yr wythnos, naill yn yr ysgol leol neu mewn lleoliad

**Ga i ddewis unrhyw ddarparwr gofal plant?** Gallwch, ar yr amod bod y darparwr hwnnw yn hapus i fod yn rhan o'r cynnig a'i fod wedi ei gofrestru ag AGC (AGGCC gynt) neu â'r Swyddfa Safonau mewn Addysg (yr arolygiaethau ar gyfer lleoliadau